TRIN GWALLT A HARDDWCH L2

Tystysgrif mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch

Pryd gaiff ei gyflwyno: Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
Teitl y Cymhwyster: Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch
Corff Dyfarnu: VTCT

Cyflwyniad i'r pwnc

Nod y cymhwyster hwn yw defnyddio'r sector trin gwallt a harddwch, sy'n hynod o ddiddorol, fel cyfrwng i feithrin nifer o sgiliau ac i gyflwyno gwybodaeth i'r myfyrwyr a fydd yn eu cynorthwyo i ymlaen at ragor o astudio ac ystod eang o yrfaoedd.

Mae'r Dystysgrif Lefel 2 VTCT mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch yn gymhwyster a gafodd ei gynllunio yn benodol i feithrin sgiliau ymarferol mewn trin gwallt a therapïau harddwch, gan alluogi dysgwyr i ddarparu gwasanaethau yn ogystal â helpu eraill.

Cynnwys y Cwrs

Uned orfodol

- Creu delwedd yn seiliedig ar thema

Unedau dewisol

- Colur ffotograffig sylfaenol
- Triniaeth sylfaenol i'r dwylo
- Siampwio a thrin gwallt
- Chwythsychu a gorffen y gwallt

Nod y Dystysgrif Lefel 2 VTCT mewn Sgiliau Gwallt a Harddwch yw cynorthwyo pobl ifanc i feithrin:

- Dealltwriaeth eang a chynhwysfawr o'r sector gwallt a harddwch
- Sgiliau academaidd ac astudio a fydd yn eu helpu i symud ymlaen yn y sector gwallt a harddwch a'r sectorau galwedigaethol ehangach eraill.

Lleoliad

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno yn y salonau trin gwallt, y salonau therapïau harddwch a'r ganolfan adnoddau dysgu ar safle Iâl Coleg Cambria.

Asesu

Bydd yr asesiad yn cynnwys gweithgareddau asesu ymarferol, profion ysgrifenedig, aseiniadau a holi ar lafar.